# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

## PENNOD 2

AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

*Hwyluso ailstrwythuro*

### 135 Dyletswyddau ar gynghorau sy'n cael eu hailstrwythuro i hwyluso trosglwyddo

(1) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro, at ddibenion yr ailstrwythuro, gydweithredu â Gweinidogion Cymru, y cyngor arall sy'n cael ei ailstrwythuro neu'r cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw berson arall sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r ailstrwythuro.

(2) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro y mae ei ardal i'w diddymu gymryd pob cam rhesymol—

(a) i hwyluso trosglwyddo ei swyddogaethau, ei staff, ei eiddo, ei hawliau a'i atebolrwyddau i'r cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw brif gynghorau newydd mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon, a

(b) i sicrhau bod y cynghorau eraill sy'n cael eu hailstrwythuro ac unrhyw brif gynghorau newydd, a'u staff, mewn sefyllfa i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.

(3) Rhaid i gyngor sy'n cael ei ailstrwythuro ac eithrio un y mae ei ardal i'w diddymu gymryd pob cam rhesymol—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hwyluso ailstrwythuro. (See end of Document for details)*

(a) i hwyluso trosglwyddo iddo swyddogaethau, staff, eiddo, hawliau ac atebolrwyddau y cyngor sydd o dan ystyriaeth mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon, a

(b) i sicrhau bod y cyngor a'i staff mewn sefyllfa i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo cyngor sy'n cael ei ailstrwythuro i gymryd, neu i beidio â chymryd, unrhyw gamau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol at ddiben cyflawni dyletswydd y cyngor o dan yr adran hon.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Hwyluso ailstrwythuro.